

**Cadw— er lles pawb.
For us all, to keep.**

Drysau Agored

Gwybodaeth Gyffredinol

1. Beth yw Drysau Agored?

Mae Drysau Agored yn ddatliad blynyddol o bensaerniaeth a threftadaeth Cymru.

- Mae'n rhan o Ddiwrnodau Treftadaeth Ewropeaidd, a gynhelir mewn 50 o wledydd Ewropeaidd bob blwyddyn ym mis Medi.
- Yng Nghymru, cynhelir digwyddiadau Drysau Agored drwy gydol mis Medi.
- Mae'n rhoi cyfle i'r cyhoedd ymweld â llefydd nad ydynt ar agor fel arfer, neu i ymweld â safleoedd sydd fel arfer yn codi tâl am ddim. Bydd safleoedd sydd ar agor fel arfer ac yn cynnig mynediad am ddim yn cynnig rhywbeth ychwanegol i'w hymwelwyr.
- Yn 2018, cynhaliwyd 1,300 o ddigwyddiadau Drysau Agored drwy gydol mis Medi mewn 287 lleoliad ar draws y 22 awdurdod lleol.

2. Pam y dylech gymryd rhan yn rhaglen Drysau Agored?

Y prif reswm dros gymryd rhan yn rhaglen Drysau Agored yw annog y cyhoedd i gael mynediad i dreftadaeth, ei mwylhau a chymryd rhan ynddi. Bydd cyfranogwyr yn cynnig cyfle i hysbysu ac addysgu'r cyhoedd ynglŷn â phwysigrwydd a gwerth treftadaeth a'r gwaith o'i diogelu, er mwyn helpu pobl i ddeall a gofalu am eu hanes.

Ymhlith y buddiannau eraill mae'r canlynol:

- Mae Drysau Agored wedi meithrin cefnogaeth sylweddol gan gymunedau yng Nghymru a thu hwnt. Mae'r digwyddiadau'n denu pobl o bob oedran a diwylliant, gyda llawer o bobl yn cymryd rhan bob blwyddyn, naill ai fel cyfranogwyr, gwirfoddolwyr neu ymwelwyr.

Mae mynediad am ddim neu ddigwyddiadau arbennig am ddim sy'n hygyrch i bawb yn creu ymdeimlad lleol cadarnhaol. Yn y gorffennol, mae trefnwyr wedi denu aelodau ac wedi codi arian drwy weithgarwch arlwyio, manwerthu neu roddion.

- Drwy gymryd rhan yn rhaglen Drysau Agored byddwch yn cael eich cynnwys mewn ymgyrch farchnata genedlaethol, gan godi ymwybyddiaeth a rhoi cyhoeddusrwydd i'ch digwyddiad, eich eiddo neu eich safle i gynulleidfa fawr
- Bydd gweithio gydag eiddo neu grwpiau treftadaeth lleol eraill yn eich ardal yn helpu i ffurfio partneriaethau a rhwydwaith treftadaeth/twristiaeth lleol a all fod o fudd i'ch busnes
- Gall denu ymwelwyr i'ch ardal drwy ddarparu ystod o bethau i'w gweld a'u gwneud roi hwb i'r economi leol os bydd yr ymwelwyr hynny'n siopa, yn bwyta ac yn aros

Gall fod gofyn i chi ddarparu mynediad cyhoeddus i'ch eiddo neu ei arddangos yn gyhoeddus fel rhan o amodau arian grant — mae Drysau Agored yn ffordd hawdd a llawn hwyl o fodloni'r gofyniad hwn!

3. Pwy all gofrestru ar gyfer Drysau Agored?

Mae'n rhaid i ddigwyddiadau Drysau Agored fod AM DDIM i bawb. I gofrestru, bydd yn rhaid i'ch gweithgaredd fodloni'r meini prawf canlynol:

- adeilad neu safle dan berchnogaeth gyhoeddus neu breifat nad yw fel arfer ar agor i'r cyhoedd NEU
- adeilad neu safle sydd fel arfer yn codi tâl mynediad, ond a fydd yn hepgor y tâl ar yr achlysur hwn (er enghraifft, safleoedd yng ngofal yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol neu eiddo Cadw, neu safleoedd sy'n eiddo i berchennog preifat neu ymddiriedolaethau elusennol) NEU
- adeilad neu safle sydd ar agor fel arfer (eglwys, llyfrgell, amgueddfa ac ati) ac a fydd yn cynnal digwyddiad arbennig (sgwrs, arddangosfa, mynediad i gofnodion a thrysorau) NEU
- digwyddiad am ddim (taith gerdded, darlith, arddangosfa, cyngerdd, atgofion, digwyddiadau ail-greu hanesyddol) sydd mewn rhyw fodd yn ymgysylltu â'r dreftadaeth leol.
- Cynhelir Drysau Agored yn flynyddol drwy gydol mis Medi. Caiff digwyddiadau eu cynnal fel arfer ar benwythnosau er mwyn denu mwy o ymwelwyr, ond gellir eu cynnal ar unrhyw adeg ac am unrhyw hyd — cyn belled â'i fod yn ystod mis Medi!
- Anogir cyfranogwyr i ddefnyddio logo a brandio Drysau Agored ar bob deunydd, fel bod y digwyddiadau yn hawdd eu hadnabod, yn unol â'r ymgyrch farchnata genedlaethol.
- Gofynnwn i gyfranogwyr hefyd gasglu data ymwelwyr fel y gallwn werthuso llwyddiant y rhaglen a gweld yr effaith a gawson! Bydd ffurflenni syml ar-lein neu argraffedig ar gael er mwyn i gyfranogwyr werthuso eu digwyddiad.

4. Sut y caiff y rhaglen Drysau Agored ei threfnu?

- Cadw, sef gwasanaeth amgylchedd hanesyddol Llywodraeth Cymru, sy'n gyfrifol am gydgyssylltu'r rhaglen Drysau Agored yn genedlaethol — fodd bynnag, fyddai'r digwyddiad yn fethiant llwyr heb gefnogaeth yr holl bartneriaid sy'n cymryd rhan!
- Trefnir pob digwyddiad Drysau Agored gan wirfoddolwyr neu staff yr eiddo. Golyga hyn y caiff y gwaith o drefnu'r digwyddiad, yr hysbysebu lleol, a'r gwaith o staffio a chynnal y digwyddiad ei wneud yn lleol.
- Yn y modd hwn, bydd gan y trefnwyr reolaeth dros y digwyddiad a gallant naill ai agor eu drysau i bobl sy'n troi i fyny ar y diwrnod neu ofyn i bobl drefnu lle ymlaen llaw yn uniongyrchol os bydd nifer cyfyngedig o leoedd ar gael.

Beth rydym ni'n ei wneud?

- Rheoli'r broses gofrestru
- Cofrestru pob digwyddiad a chyhoeddi'r rhaglen gyfan ar adran Drysau Agored ein gwefan
- Rhoi cyhoeddusrwydd i'r rhaglen Drysau Agored yn genedlaethol (drwy ddulliau cysylltiadau cyhoeddus, marchnata a chyfryngau cymdeithasol)
- Rhoi deunydd marchnata cyffredinol i chi eu defnyddio, yn rhad ac am ddim
- Rhoi cyngor, cefnogaeth a gwybodaeth am sut y gallwch drefnu eich digwyddiad ac ateb unrhyw gwestiynau a allai fod gennych
- Gweithio gydag awdurdodau lleol, sefydliadau ac unigolion i wella'r rhaglen a chynyddu niferoedd.

Beth y dylech chi ei wneud?

- Cofrestru ar wefan Cadw a darparu'r wybodaeth berthnasol am eich digwyddiad
- Trefnu eich digwyddiad (trefnu bod yr adeilad yn cael ei agor, trefnu unrhyw ddi-ddanwyr/gwisgoedd/tywyswyr, trefnu deunydd ar gyfer arddangosfeydd ac ati)
- Dod o hyd i'r nifer o wirfoddolwyr sydd eu hangen i helpu
- Llenwi'r posteri Drysau Agored gyda manylion eich digwyddiad a'u rhoi mewn siopau lleol, eglwysi ac ati
- Ysgrifennu erthyglau ar gyfer papurau lleol a chyhoeddusrwydd lleol perthnasol arall, yn seiliedig ar y templed y byddwn yn ei roi i chi
- Cofnodi nifer yr ymwelwyr
- Llenwi'r ffurflenni adborth ar-lein ar ôl y digwyddiad.

5. Working in partnership

Rydym yn annog sefydliadau yn yr un ardal i weithio gyda'i gilydd a ffurfio clystyrau tra'n gweithio ar eu digwyddiadau Drysau Agored.

Mae cydgyssylltu digwyddiadau yn lleol a gwneud yn siŵr y cânt eu cynnal ar yr un diwrnod, neu yn ystod yr un penwythnos, yn gwneud yr ardal yn fwy deniadol i ymwelwyr — ac mae profiad blaenorol wedi dangos bod niferoedd ymwelwyr yn uwch pan fydd safleoedd yn cydweithio!

Mae clystyrau Drysau Agored yn bodoli eisoes ledled Cymru, gan gynnwys ym Merthyr, Gwynedd, Conwy, Caerdydd, Pen-y-bont ar Ogwr, Aberhonddu, Glynebwy, Wrecsam, Rhondda Cynon Taf, Mynwy, Llandaf a Sir Ddinbych — ac mae lle i fwy bob amser! Cynhelir pob digwyddiad yn yr ardaloedd hyn ar yr un adeg ym mis Medi, ac mae rhai ardaloedd hyd yn oed yn argraffu rhaglen yn hysbysebu pob digwyddiad lleol. Ledled Cymru, caiff clystyrau eu rhedeg gan awdurdodau lleol, mentrau treftadaeth trefluniau neu aelodau'r gymuned.

Ond peidiwch â phoeni os nad oes clwstwr wedi'i sefydlu eisoes yn eich ardal. Mae llawer o safleoedd unigol yn cymryd rhan hefyd, gan gynnwys tai preifat, eglwysi, eiddo'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol, eiddo Cadw, eiddo'r cyngor, prosiectau a berchnogir gan y gymuned ac adeiladau preifat.

6. Astudiaethau Achos

Dyma rai enghreifftiau o ddigwyddiadau Drysau Agored a gynhaliwyd yn y gorffennol:

- Taith tywys archebwyd ymlaen llaw o amgylch ystâd breifat Neuadd Brynkinalt, y Waun
- Agoriad a theithiau tywys o amgylch Cwt 9, hen wersyll carcharorion rhyfel, Pen-y-bont ar Ogwr, a ddechreuodd grŵp 'Cyfeillion'
- Lansiad llyfr a sgwrs yng Nghapel Hen Dŷ Cwrdd, sy'n berchen i Ymddiriedolaeth Adeiladau Crefyddol Cymru
- Arddangosfa o drafnidiaeth drwy'r oesoedd ym Mharc Treftadaeth y Rhondda
- Arddangosfa am y cerflunydd Frank Roper y gwelir ei waith mewn llawer o eglwysi yn Ne Cymru
- Canu clychau a theithiau o amgylch tyrrau Eglwys y Santes Fair, Aberhonddu.
- Teithiau tywys o amgylch ysgolion e.e. Ysgol Howell, Llandaf
- Teithiau y tu ôl i'r llenni yn Swyddfeydd Cofnodion Gwynedd
- Diwrnod Agored yn Dolbedyr Sir Ddinbych, sy'n eiddo i'r Landmark Trust
- Prynhawniau agored ar safle cynllun trydan dŵr ac ysgol eog
- Taith gerdded hanesyddol Aberpennar
- Sgwrs gan dîm cadwraeth Cyngor Bwrdeistref Sirol
- Wrecsam ar sut i ofalu am adeiladau hanesyddol
- Digwyddiad ail-greu yng Ngharchar Rhuthun
- Agor Tŷ Weindio Hetty yn Rhondda Cynon Taf

7. Sut i gofrestru?

I gymryd rhan yn y rhaglen Drysau Agored cliciwch yma i gofrestru ar-lein.

Y dyddiadau y mae angen i chi eu gwybod yw:

- 1 Mawrth: cofrestru'n agor
- 1 Gorffennaf: dyddiad cau ar gyfer cofrestru
- 1 Awst: Bydd ymgyrch farchnata genedlaethol Drysau Agored yn dechrau, a byddwch yn gallu gweld y digwyddiadau ar wefan Cadw
- 1-30 Medi: Caiff digwyddiadau Drysau Agored eu cynnal

8. Cysylltwch â ni

E-bostiwch opendoors@gov.wales i gael rhagor o wybodaeth neu cofrestrwch ar-lein yn cadw.gov.wales/open-doors/?lang=cy.

“Fe aeth hi'n dda iawn! Yn ein hail flwyddyn yn unig, cynyddodd niferoedd ein hymwelwyr bedair gwaith. Gweithiodd y faner yn dda ac roedd gennym ymgyrch hysbysebu leol yma hefyd. Gwaeth yr arian a wnaed yn ein siop a'n caffi yn iawn am roi mynediad”.

Gregynog, ger y Drenewydd, Powys

